Canolfan y Celfyddydau
Llantarnam Grange
Arts Centre

# Kickstart: Cynorthwyydd Marchnata a Datblygu

**Disgrifiad Swydd**

**Cefndir**

Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer celf weledol a chymhwysol yn ne-ddwyrain Cymru, sy'n ymgysylltu â rhyw 40,000 o bobl bob blwyddyn fel arfer drwy ein harddangosfeydd a'n rhaglenni ymgysylltu helaeth gyda'r gymuned leol. Mae ein cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â ni yn y ganolfan, mewn lleoliadau ledled y wlad ac yn ddigidol, gan atgyfnerthu ein safle fel adnodd gwerthfawr yn y sir, y rhanbarth ac yn genedlaethol.

Dyma gyfle i Gynorthwyydd Marchnata a Datblygu ymuno â'n tîm, sy'n cynnwys Cyfarwyddwr, Uwch Swyddog Addysg, Swyddog Marchnata, Gweinyddwr, Cynorthwyydd Arddangosfeydd, Rheolwr Caffi a Chynorthwywyr Caffi. Y tu hwnt i'r tîm craidd yma, rydyn ni'n gweithio gydag artistiaid a gweithwyr llawrydd i gefnogi gwaith y sefydliad. Mae Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn cael ei reoli gan fwrdd o ymddiriedolwyr sy'n cefnogi'r cwmni ar sail wirfoddol. Rydyn ni'n chwilio am rywun fydd yn dangos ymrwymiad go iawn i'r gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda'n cymuned leol a gyda sector y celfyddydau. I weld manylion am ein gwaith a'n cynlluniau, ewch i www.lgac.org.uk/cy.

**Diben y swydd**
Cefnogi'r tîm i gyflawni amcanion strategol y sefydliad o ran marchnata a chodi arian, cyfathrebu pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei wneud, a hyrwyddo ein gwaith i bartneriaid, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a rhanddeiliaid ar draws pob llwyfan yn ogystal â cheisio am arian prosiect i barhau â'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

**Prif Rolau a Chyfrifoldebau**

- Bod yn gyson â brand, llais a gwerthoedd y Ganolfan ym mhob cyfathrebiad
- Cynorthwyo gyda gweinyddu a datblygu presenoldeb y Ganolfan ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cynorthwyo gydag ymgyrchoedd e-bost a rhestrau postio
- Cynorthwyo gyda diweddaru gwefan y Ganolfan
- Cynorthwyo gyda chreu gwaith dehongli arddangosfeydd
- Cefnogi mentrau ymchwil cynulleidfa, gyda'r nod o greu gwell dealltwriaeth o broffiliau, cymhellion a barn y gynulleidfa
- Cynorthwyo gydag ymchwilio i gyllid prosiect posib gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau
- Cynorthwyo gyda chasglu gwybodaeth a data i gefnogi ceisiadau am arian
- Sicrhau bod holl bolisïau'r Ganolfan yn cael eu dilyn
- Cefnogi ein hymgyrchoedd cyfrannu a rhoi unigol

**MANYLEB YR UNIGOLYN**
Byddai'r swydd yma'n addas i rywun sydd â phrofiad / hyfforddiant mewn marchnata, cyfathrebu neu godi arian naill ai drwy waith neu hyfforddiant, neu i rywun sydd ag uchelgais i weithio yn y meysydd yma yn y sector creadigol. Gallai hynny fod yn raddedigyn newydd, neu'n rhywun sy'n chwilio am gyfle i weithio yn y sector creadigol. Os ydych chi'n egnïol ac yn greadigol, gyda phwyslais

KICKSTART
SCHEME

cryf ar ein cymuned, a gwerth y gwaith rydyn ni'n ei wneud, fe fydden ni'n falch iawn o gael clywed gennych. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus angerdd am y celfyddydau a diwylliant a bydd yn hyrwyddo'r angen i groestoriad eang o'r gymdeithas gymryd rhan fel cynulleidfaoedd. Bydd angen i chi weithio'n dda gyda'r tîm ond gallu ysgogi eich hunan hefyd i weithio'n annibynnol. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr neu'r rhai sy'n barod i ddysgu.

Ar gyfer y swydd yma, rydyn ni'n annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; ac rydyn ni'n croesawu profiadau byw ar yr un lefel â phrofiadau mewn swyddi.

**Sgiliau, nodweddion a phrofiad allweddol**
**Hanfodol :**

- Sgiliau creadigol a synnwyr gweledol cryf
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, yn enwedig sgiliau cyfryngau cymdeithasol.
- Person sy'n ysgogi ei hunan ac sy'n gweithio'n dda yn annibynnol ac fel rhan o dîm bach
- Awydd i hyrwyddo barn a safbwyntiau cynulleidfaoedd drwy bob elfen o farchnata
- Ymrwymiad personol a phroffesiynol i gyfle cyfartal ac i amrywiaeth yn ei holl ffurfiau

**Dymunol:**

- Profiad ym maes cyfathrebu a/neu farchnata
- Profiad o sicrhau rhoddion a/neu godi arian
- Y gallu i siarad/ysgrifennu yn Gymraeg
- Diddordeb a gwybodaeth am gelf a chrefft cyfoes

**Pwy sy'n gallu gwneud cais?**

Pobl ifanc **16-24 oed**, sy'n **ddi-waith** ac yn **hawlio Credyd Cynhwysol**.

**Cyflog:**

Isafswm Cyflog Cenedlaethol (neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn dibynnu ar oedran yr unigolyn)

**Cyflog Byw Cenedlaethol (23+): £8.91**

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol (21-22): £8.36**

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol (18-20): £6.56**

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol (dan 18): £4.62**

Contract ar gyfer 25 awr yr wythnos yw hwn, am gyfnod penodol o chwe mis. Mae oriau swyddfa Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange fel arfer rhwng 9am a 4pm o ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn. Rydyn ni'n hapus i ystyried gweithio hyblyg i'r rheini sydd ag ymrwymiadau gofalu – byddwn yn gweithio hynny allan fesul achos, a fydd hynny ddim yn cael effaith ar ein penderfyniad.

**Sut i wneud cais**

Yn gyntaf, siaradwch â'ch hyfforddwr gwaith yn eich Canolfan Byd Gwaith leol. Bydd hyfforddwr gwaith yn siarad â chi am Kickstart.

Yna bydd eich hyfforddwr gwaith yn eich cyfeirio ar gyfer y swydd, yn dibynnu ydych chi'n addas ac ar gael.

Os nad ydych wedi ymweld â ni o'r blaen, mae ganddon ni daith 3-D o gwmpas yr adeilad ar gael yma er mwyn i chi ddod i nabod yr adeilad. Gallwch chi hefyd ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael blas ar y math o waith rydyn ni'n rhan ohono a/neu'n angerddol amdano.

**Dyddiadau pwysig:**

Bydd angen i chi gael eich cyfeirio gan eich hyfforddwr gwaith erbyn **5pm ar 22 Mawrth 2021.** Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gofyn i'ch hyfforddwr gwaith am hyn mewn digon o bryd.

Bydd y lleoliad yn cychwyn ar **6 Ebrill 2021**, ac yn para tan **fis Medi**, gyda'r posibilrwydd o estyniad, os bydd cyllid ar gael ar gyfer y cynllun.

Dysgwch ragor am Gynllun Kickstart yma: https://www.gov.uk/government/collections/kickstart-scheme

**Mae Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange yn gynhwysol:**

Yng Nghanolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange, rydyn ni'n chwilio am bobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau i'n helpu ni i weithio mewn ffyrdd newydd ac i ddod yn fwy perthnasol i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Dydy hyn ddim yn bresennol yn ein gweithlu ar hyn o bryd, felly rydyn ni'n awyddus iawn i annog ceisiadau gan bobl Dduon a phobl groenliw nad ydyn nhw'n ddu yn ogystal â phobl sydd â salwch hirdymor/anableddau gweladwy neu anweladwy o ran iechyd meddwl a/neu gorfforol.

**Cysylltwch:**

Rydyn ni'n croesawu unrhyw gwestiynau am y broses yma a bydden ni'n falch o gael siarad gyda chi am unrhyw agwedd ar weithio yng Nghanolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange.

Louise Jones-Williams, Cyfarwyddwr – director@lgac.org.uk
Bob Gelsthorpe, Swyddog Marchnata – marketing@lgac.org.uk